# Asesiadau personol – Cwestiynau cyffredin i rieni a gofalwyr

## Beth yw ‘asesiadau personol’?

Mewn asesiadau personol neu 'addasol' mae'r cwestiynau a gaiff eu gofyn wedi'u seilio ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Os bydd dysgwr yn rhoi ateb anghywir i gwestiwn, caiff cwestiwn haws ei ofyn; os bydd dysgwr yn rhoi ateb cywir, caiff cwestiwn mwy heriol ei ofyn. Mae hynny'n cynnig profiad asesu unigol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol ar gyfer rhifedd a darllen i ddisodli’r Profion Cenedlaethol papur. Mae’r ‘Asesiad Personol Cenedlaethol - Rhifedd (Gweithdrefnol)’ a’r ‘Asesiad Personol Cenedlaethol – Darllen’ ar gael ar-lein. Bydd ‘Rhesymu Rhifyddol’ ar gael yn 2020/21.

## Beth yw diben asesiadau personol?

Diben yr asesiadau yw helpu dysgwyr i wneud cynnydd drwy ddeall yr hyn y maent yn gallu ei wneud, y pethau y mae angen iddynt weithio arnynt, a’u camau nesaf.

Bydd yr wybodaeth a ddaw o’r asesiadau’n ychwanegu at yr hyn y mae’r athro’n gwybod eisoes am eich plentyn o ran darllen a rhifedd drwy’r gwaith yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd.

## Beth yw manteision asesiadau personol?

Mae asesiadau personol:

- wedi’u teilwra i bob dysgwr
- yn cynnig profiad rhyngweithiol er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr ac asesu lefel eu sgiliau
- yn cynnig gwybodaeth am sgiliau a datblygiad dysgwyr
- yn hyblyg – gall ysgolion eu trefnu ar yr adegau sydd fwyaf buddiol o ran y dysgu a’r addysgu.

## Pam mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol ar-lein?

Mae asesiadau personol yn darparu gwybodaeth ar sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr unigol a dosbarthiadau cyfan. Gall athrawon ddefnyddio'r wybodaeth honno i gynllunio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu. Drwy symud i asesiadau ar-lein, rydym yn manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i roi profiad asesu personol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr.

## Pwy fydd yn sefyll yr asesiadau?

Os yw eich plentyn ym Mlynyddoedd 2–9 ac yn astudio mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, bydd gofyn iddynt sefyll yr asesiadau personol.

## Pryd fydd fy mhlentyn/mhlant yn sefyll yr asesiadau personol?

Caiff yr asesiadau personol eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y profion papur yn cael eu dirwyn i ben yn raddol. Bydd eich plentyn yn sefyll yr asesiadau unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Mewn ymateb i geisiadau gan athrawon, mae'r asesiadau ar gael i ysgolion eu defnyddio eto yn ystod y flwyddyn, os ydynt yn dymuno, er mwyn gweld cynnydd y dysgwyr.

Bydd yr asesiadau personol yn disodli'r profion papur yn unol â'r amserlen isod.

| **Blwyddyn academaidd** | **Rhifedd** (Gweithdrefnol) | **Darllen** (Cymraeg a Saesneg) | **Rhifedd** (Rhesymu) |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | **ar-lein** | **ar-lein** | **papur** |
| 2020/21 | **ar-lein** | **ar-lein** | **ar-lein** |

Caiff y profion papur eu sefyll ar adeg benodol ym mis Ebrill/Mai, ond gellir sefyll yr asesiadau personol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol. Gall ysgol eich plentyn/plant benderfynu pryd sydd fwyaf buddiol o ran eu dysgu.

## Mae gan fy mhlentyn/mhlant anghenion dysgu ychwanegol – a fydd yr asesiadau yn addas?

Byddant. Mae fersiynau wedi'u haddasu o'r asesiadau ar gael i'ch plentyn/plant. Bydd y rheini'n cynnwys y gallu i ehangu maint y testun, rheoli tabiau, ac addasiadau eraill. Bydd yr asesiadau'n cydweddu â thechnolegau cynorthwyol safonol.

Ni fydd dysgwyr yn cael eu cyfyngu i ateb cwestiynau sydd wedi'u cysylltu â'u grŵp blwyddyn neu â'u hoedran. Mae natur 'addasol' yr asesiadau yn golygu bod pob cwestiwn a gaiff ei ofyn wedi'i seilio ar ymateb eich plentyn i'r cwestiwn blaenorol. Bydd lefel yr anhawster yn amrywio hyd nes y bydd lefel eich plentyn wedi'i sefydlu ar ddiwedd yr asesiad.

## Oes angen gwneud gwaith paratoi cyn sefyll yr asesiadau?

Nac oes. Nid oes angen i blant wneud unrhyw waith paratoi penodol.

Mae'r asesiadau wedi'u cynllunio i fod yn hawdd eu defnyddio. Bydd asesiadau ymgyfarwyddo ar gael fel y gall ysgolion sicrhau bod plant yn gweld ac yn deall y math o gwestiynau fydd yn ymddangos cyn iddynt wneud yr asesiad, a'u bod yn gyfarwydd â sut i lywio drwy asesiad.

**Sut y bydd fy mhlentyn/mhlant yn gallu cael gafael ar yr asesiadau?**

Bydd eich plentyn/plant yn cael mynediad at yr asesiadau yn yr ysgol, drwy Hwb, platfform dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru.

**Pa ddyfais fydd fy mhlentyn/mhlant yn ei ddefnyddio i sefyll yr asesiadau?**

Gellir sefyll yr asesiadau ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron a chyfrifiaduron llechen. Gall y plant sefyll yr asesiadau un ar y tro, mewn grwpiau bach neu mewn dosbarthiadau, yn ôl dewis athrawon a chyfleusterau'r ysgol.

**A fydd gofyn i fy mhlentyn/mhlant sefyll yr asesiadau yn ystod cyfnod penodol?**

Na fydd. Mae gan ysgolion yr hyblygrwydd i drefnu cynnal yr asesiadau personol ar yr adeg fwyaf priodol yn eu barn nhw yn ystod y flwyddyn academaidd, o ran y dysgu a'r addysgu. Yn ystod y cyfnod trawsnewid bydd cyfnod penodol yn parhau ar gyfer y profion papur.

**A gaf ddewis i fy mhlentyn/mhlant gael profion papur ar ôl i'r asesiadau personol gael eu cyflwyno?**

Na chewch. Bydd y profion papur yn cael eu dirwyn i ben yn raddol wrth i'r asesiadau personol gael eu cyflwyno ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol), Darllen (Cymraeg a Saesneg), a Rhifedd (Rhesymu), yn y drefn honno, yn unol â'r amserlen uchod.

**A fydd rhieni a gofalwyr yn cael adroddiadau am eu plentyn/plant yn dilyn yr asesiadau?**

Bydd rhieni a gofalwyr yn cael adborth gan yr ysgol ar sgiliau eu plentyn/plant. Bydd hyn yn rhoi cipolwg ichi ar sgiliau eich plant ar y pryd. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cwestiynau anoddaf y cawson nhw'n gywir, rhai o'r cwestiynau y cawson nhw'n anghywir, a'r camau nesaf posibl. Anogir ysgolion i rannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr tra bo'r wybodaeth yn gyfredol.

Caiff adroddiadau cynnydd hefyd eu darparu. Byddant yn dangos cynnydd dros amser a sgôr wedi'i safoni ar sail oedran ar gyfer asesiad diweddaraf y plentyn. Mae'r sgôr yma'n dangos pa mor dda y mae'ch plentyn wedi'i wneud o'i gymharu â phlant eraill yng Nghymru a aned yn yr un mis a blwyddyn. Ysgolion fydd yn penderfynu pryd i rannu'r adroddiadau hyn â rhieni. Ym mlwyddyn academaidd 2019/20, ni fydd adroddiadau cynnydd ar gyfer yr asesiad darllen ar gael tan ddiwedd tymor yr haf.

**Pa mor hir fydd yr asesiadau yn para?**

Bydd eich plentyn/plant yn gweithio drwy'r cwestiynau yn ôl eu cyflymdra eu hunain. Bydd hyd yr asesiad yn amrywio, yn ôl pa mor hir y bydd yn ei gymryd i'r system bennu lefel sgiliau'r plentyn/plant. Pan fydd y system wedi casglu digon o wybodaeth, daw'r asesiad i ben yn awtomatig. Mae'r asesiad Rhifedd

(Gweithdrefnol) yn para rhwng 20 a 40 munud, a’r asesiad darllen yn para rhwng 35 a 45 munud yn gyffredinol. Gall athrawon stopio'r asesiadau dros dro, e.e. er mwyn rhoi egwyl i ddysgwyr iau.

**Sut galla i ddysgu mwy?**

Gallwch ddysgu mwy am asesiadau personol yma: hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter @LlC_Addysg.